OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 1182

# Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018

## RHAN 3

## Hysbysiadau

**Cofrestr hysbysiadau**

**11.**—(1) Rhaid i gorff cymeradwyo gadw cofrestr sy'n cynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r holl hysbysiadau stop dros dro, hysbysiadau gorfodi a hysbysiadau stop a roddir ganddo.

(2) Rhaid i'r gofrestr gynnwys yr wybodaeth a ragnodir at ddiben adran 188(1)(**1**) o Ddeddf 1990 a chan erthygl 30 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**) ond gyda'r addasiadau a ddisgrifir ym mharagraff (3).

(3) Yr addasiadau yw—

(a) mae unrhyw gyfeiriad at yr awdurdod i'w ddarllen fel cyfeiriad at y corff cymeradwyo;

(b) mae unrhyw gyfeiriad at gyflwyno'r hysbysiad neu gopïau o'r hysbysiad i'w ddarllen fel cyfeiriad at roi'r hysbysiad;

(c) mae unrhyw gyfeiriad at dorri rheolaeth gynllunio i'w ddarllen fel cyfeiriad at dorri'r gofyniad i gael cymeradwyaeth;

(d) mae unrhyw gyfeiriad at hysbysiad torri amod i'w ddarllen fel cyfeiriad at hysbysiad stop neu hysbysiad stop dros dro.

(4) Rhaid cofnodi'r wybodaeth ar y gofrestr cyn gynted ag y bo'n ymarferol, ond nid mwy na 2 wythnos ar ôl rhoi'r hysbysiad.

(5) Rhaid dileu cofnod sy'n ymwneud â hysbysiad o'r gofrestr os yw'r hysbysiad yn cael ei dynnu'n ôl neu os yw'n peidio â chael effaith.

(**1**) Diwygiwyd adran 188(1) gan baragraff 30(a) o Atodlen 7 a Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) a chan baragraff 24(5) o Atodlen 6 i Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110).